

**1. Adroddiad yr Athro Syr Ian Diamond (Medi 2016) ar ddyfodol cyllid AU yng Nghymru.**

Yn ganolog i argymhellion Diamond mae ailwampio pecyn cymorth myfyrwyr gyda'r nod o symud tuag at system syml sy'n cydnabod costau cyfannol astudio AU i fyfyrwyr, sef ffioedd a chynhaliaeth. Mae'r syniad o gyffredinolïaeth gynyddol, sydd wedi arwain y gwaith o lunio polisi yng Nghymru ers datganoli yn cael ei adlewyrchu mewn Grant Cynhaliaeth arfaethedig o £1000 nad yw'n dibynnu ar brawf modd ar gyfer pob myfyriwr is-raddedig llawn-amser ynghyd â Grant Cynhaliaeth yn seiliedig ar incwm, sydd ar ei uchafswm yn talu'n llawn am gostau yn ystod y tymor i fyfyrwyr cymwys o'r aelwydydd incwm isaf. Yn ogystal, byddai benthyciadau hyd at uchafswm y grant ar gael i'r rhai nad ydynt yn gymwys i dderbyn uchafswm y grant. Hefyd byddai darpariaeth debyg ar gael i fyfyrwyr rhan-amser, ac amrywiaeth o becynnau ar gael i'r rhai sydd wedi derbyn cymorth gan Wasanaethau Gofal Cymdeithasau, i fyfyrwyr anabl ac i rieni sy'n dymuno astudio. Hefyd bydd y ddarpariaeth Gymraeg yn cael cymorth drwy'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol hyd at lefelau cyllid 2016/17 o £5.8miliwn. Argymhellir hefyd y dylai myfyrwyr ôl-raddedig a myfyrwyr ymchwil dderbyn yr un cymorth Cynhaliaeth a Ffioedd Hyfforddiant â myfyrwyr israddedig ynghyd â rhoi ysgoloriaethau a fyddai'n para hyd at 3 blynedd i 150 o fyfyrwyr bob blwyddyn. Petai'r argymhellion hyn yn cael eu derbyn, byddent yn dod i rym yn 2018/2019.

**2. Ymgynghori ar gyfer achredu rhaglenni AGA yng Nghymru.** Mae'r ymgynghori'n canolbwyntio ar gynnig i ddiwygio trefn achredu AGA a fyddai:

- a) yn trosglwyddo rôl achredu cyrsiau AGA o Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru i'r Gyngor Gweithlu Addysg;
- b) yn darparu meini prawf newydd ar gyfer achredu rhaglenni AGA.

Mae'r weledigaeth ar gyfer AGA yng Nghymru wedi'i seilio ar ddogfen Llywodraeth Cymru, *Cymwys am Oes*. Mae'r Grŵp Achredu Addysg Athrawon wedi dynod 5 maes sylfaenol ar gyfer newid AGA yng Nghymru:

- a) Mwy o rôl i ysgolion;
- b) Rôl fwy eglur i brifysgolion;
- c) Cyd-berchnogaeth o'r rhaglen;
- d) Cyfleoedd wedi'u strwythuro ar gyfer cysylltu'r dysgu a wneir mewn ysgolion â'r dysgu mewn prifysgolion a
- e) Rhoi lle canolog i ymchwil.

Byddai'r cynlluniau Partneriaeth AGA yn dechrau'r rhaglen newydd ar 2 Medi 2019.

**3.** Yn dilyn argymhellion Adroddiad Donaldson dechreuodd y **Fframwaith Cymhwysedd Digidol** yn yr ysgolion ledled Cymru ar 1 Medi 2016. Mae hwn wedi'i drefnu yn yr un modd â'r cynlluniau Llythrennedd a Rhifedd ac yn ogystal â'r gwersi TGCh, bydd yn canolbwyntio ar a)Dinasyddiaeth b)Rhyngweithio a Chydweithredu c)Cynhyrchu a d)Data a Meddwl Cyfrifiadurol, e.e. datrys problemau. Rhagwelir y bydd y Fframwaith yn cael ei weithredu'n llawn erbyn 2021.

**4.** Rwyf wedi anfon **e-gylchlythyrau Dysg Llywodraeth Cymru** ac e-byst gan **Estyn** at y Parchedig Hywel Richards yn rheolaidd.

5. **Pwyllgor Addysg yr Eglwysi Rhyddion (Cymru a Lloegr).** Mynychais y cyfarfod diweddaraf yn Llundain ar 19<sup>eg</sup> Hydref. (i) Rhoddwyd dau gyflwyniad llawn gwybodaeth a gwerthfawr gan Patricia Hannam, Arolygydd/Ymgynghorydd Swydd Hampshire a Deborah Weston o Swyddfa Ymchwil NATRE oedd yn canolbwyntio ar Ymgysylltu rhwng yr Eglwysi Rhyddion ag ysgolion yn Lloegr. Rhoddwyd pwyslais arbennig ar bwysigrwydd cynnwys elfennau statudol datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol dysgwyr yn rhan annatod o arferion dosbarth. (ii) Fel canlyniad i'r sefyllfa gymharol wahanol o ran AG yn Lloegr, mae cyrff AG Cenedlaethol yno yn ceisio sicrhau, 1) Mwy o athrawon AG hyfforddedig a chymwysedig, 2) Rhaid i bob myfyriwr AGA cynradd sy'n astudio cwrs blwyddyn dderbyn o leiaf 12 awr o hyfforddiant penodol mewn AG, 3) Dylai'r Llywodraeth sicrhau bod ysgolion yn atebol dros lefel y ddarpariaeth a'r safonau o ran addysgu AG gan ei fod yn bwnc statudol. (iii) Cefais gyfle i roi gwybod i'r aelodau am y datblygiadau diweddaraf yng Nghymru, ac yn benodol am argymhellion adroddiad Syr Ian Diamond ar ddyfodol cyllid AU, ymgynghori ar gyfer achredu rhaglenni AGA yng Nghymru a lansio'r Fframwaith Cymhwysedd Digidol mewn ysgolion. Rwyn gobeithio mynychu cyfarfod nesaf y pwyllgor hwn ar 15<sup>eg</sup> ac 16<sup>eg</sup> Mawrth, 2017. Mi fydd yn Gyfarfod Preswyl ac fe'i gynhelir yng Ngholeg Westhill, Birmingham.

Vaughan Salisbury 10/11/2016